**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Y Gwir Anrh Elin Jones AS
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

1 Tachwedd 2024

Annwyl Lywydd

Terfynau amser adrodd ar gyfer memoranda cydsyniad deddfwriaethol

Rydym wrthi'n ystyried memoranda cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer Bil Ynni Prydain Fawr a'r Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg, y mae eu dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar 15 Tachwedd 2024 a 22 Tachwedd 2024 yn y drefn honno.

O ystyried natur y Biliau a'r memoranda cysylltiedig, rydym yn cymryd tystiolaeth gan Rebecca Evans AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio ar y materion hyn ar 4 Tachwedd 2024.

Rydym hefyd wedi cymryd tystiolaeth gan Huw Irranca-Davies AS, y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, ar femorandwm cydsyniad deddfwriaethol sy'n ymwneud â'r Bil Dŵr (Mesurau Arbennig), y mae ei ddyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar 22 Tachwedd 2024. Yn ystod y sesiwn honno, nododd y Dirprwy Brif Weinidog y byddai angen memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol.

Rydym hefyd yn cymryd tystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai ar 18 Tachwedd 2024 ar y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer y Bil Hawliau Rhentwyr, y mae ei ddyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar 29 Tachwedd 2024.

Mae'n annhebygol y byddwn yn gallu bodloni'r dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno adroddiad y cyfeirir atynt uchod oherwydd yr angen i gymryd tystiolaeth o ganlyniad i faterion pwysig egwyddor gyfansoddiadol a godir ym mhob achos.

Felly, byddem yn ddiolchgar i gael estyniadau i'r dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar gyfer y memoranda uchod er mwyn galluogi ein hadroddiadau i ystyried y sesiynau tystiolaeth lafar gyda'r

Ysgrifenyddion Cabinet perthnasol a thebygolrwydd memorandwm atodol yn achos y memorandwm ar y Bil Dŵr (Mesurau Arbennig). O ystyried lle y mae'n ymddangos bod Biliau'r DU yng nghylch deddfwriaethol Senedd y DU, rydym o'r farn bod cwmpas digonol i estyniadau gael eu rhoi.

Yn y dyfodol, awgrymwn y gallai dull gwahanol o osod terfynau amser ar gyfer cyflwyno adroddiad fod o fudd i bwyllgorau'r Senedd a Llywodraeth Cymru. Rydym yn credu y gallai fod gwerth gosod terfynau amser cychwynnol ar gyfer cyflwyno adrodd i gyd-fynd â'r dyddiad terfynu craffu tebygol yn Nhŷ cyntaf Senedd y DU y cyflwynir y Bil perthnasol iddo.

Ni fyddai defnyddio'r dull hwn yn effeithio ar gyflwyno'r cynigion cydsyniad deddfwriaethol perthnasol gan mai dim ond hanner ffordd drwy'r broses ddeddfwriaethol y byddai'r Biliau yn Senedd y DU. Byddai hefyd yn lleihau'r angen i bwyllgorau'r Senedd ofyn am estyniadau gan y Pwyllgor Busnes i derfynau amser ar gyfer cyflwyno adroddiad, ond ni fyddai'n atal y pwyllgorau hynny rhag cyflwyno adroddiad yn gynharach pe baent am wneud hynny. Yna gallai'r terfynau amser hyn ar gyfer cyflwyno adroddiad gael eu hestyn yn awtomatig gan y Pwyllgor Busnes, os bydd memoranda cydsyniad deddfwriaethol atodol yn cael eu gosod sy'n codi'n ddiweddarach yng nghyfnodau diwygio'r Tŷ cyntaf neu gyfnodau cynharach yr ail Dŷ.

Byddem yn ddiolchgar pe gallai'r Pwyllgor Busnes ystyried yr awgrym hwn. Os yw'n cytuno, efallai y bydd hefyd am ystyried gosod terfynau amser newydd ar gyfer cyflwyno adroddiad ar gyfer yr holl femoranda cydsyniad deddfwriaethol presennol er mwyn adlewyrchu'r dull hwnnw.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Jane Hutt AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip. Mae copi o'r llythyr hefyd yn cael ei anfon at gadeiryddion pwyllgorau'r Senedd sydd hefyd yn craffu ar y memoranda cydsyniad deddfwriaethol y cyfeiriwyd atynt uchod: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig; y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith a'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai.

Yn gywir,

Mike Hedges

Mike Hedges
Cadeirydd